**WG53147**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Dileu elw o ofal plant

## Gweithredu Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025:

## Dileu elw o ofal plant - cofrestru, datganiadau blynyddol a monitro a gorfodi

13 Ionawr 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 2025
ISBN Digidol 978-1-80633-939-6

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar ddileu elw o ofal plant yng Nghymru. Roedd yr ymgynghoriad hwnnw'n cwmpasu:

- y dull arfaethedig o gofrestru ar gyfer gwasanaethau plant o dan gyfyngiad o 1 Ebrill 2026 a newidiadau posibl i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 i ddarparu ar gyfer hyn;

- cynigion ar gyfer sut y dylai'r broses datganiadau blynyddol newid er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad ddangos eu bod yn parhau i fodloni'r diffiniad o endid nid-er-elw a newidiadau posibl i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017 i ddarparu ar gyfer hyn;

- y dull o fonitro a gorfodi'r prawf person addas a phriodol diwygiedig, gan ddarparu bod trefniadau ariannol afresymol neu anghymesur a wnaed gan ddarparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad yn dystiolaeth y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw iddi wrth benderfynu a yw'r darparwr yn berson addas a phriodol.

## Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

Yr Is-adran Galluogi
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: dileuelw@llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd: Removing profit from children's care | GOV.WALES

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: Dileu elw o ofal plant | LLYW.CYMRU

## Cynnwys

Cynnwys ........................................................................................................ 3
Cefndir ,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,,4
Gweithredu ....................................................................................................4
Yr ymgynghoriad .......................................................................................... 5
Yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ................................................................... 5
C.1 Rheoliadau cofrestru – barn ar newidiadau arfaethedig ..................................... 6
C.2 Rheoliadau cofrestru – costau a/neu fuddion .................................................... 8
C.3 Rheoliadau cofrestru – pynciau neu faterion a gwmpesir gan ganllawiau ........ 10
C.4 Rheoliadau cofrestru – amseroedd arfaethedig a dull trosiannol o gofrestru .... 12
C.5 Rheoliadau datganiadau blynyddol - newidiadau arfaethedig ............................13
C.6 Rheoliadau datganiadau blynyddol - costau a/neu fuddion .............................. 15
C.7 Monitro a gorfodi - barn ar y dull arfaethedig ................................................... 17
C.8 Monitro a gorfodi - costau a/neu fuddion .......................................................... 19
C.9 Monitro a gorfodi - pynciau neu faterion a gwmpesir gan ganllawiau ............... 21
C.10-12 Cwestiynau eraill ......................................................................................... 22
Y Camau Nesaf ............................................................................................ 26
Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr i'r ymgynghoriad..................................................... 27

## Cefndir

Ar 24 Mawrth 2025, daeth Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 ('Deddf 2025') yn gyfraith yng Nghymru. Mae Deddf 2025 yn cynnwys darpariaethau y bwriedir iddynt gyfyngu ar allu darparwyr i wneud elw o wasanaethau cartrefi plant, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau maethu. Gelwir y rhain gyda'i gilydd yn 'wasanaethau plant o dan gyfyngiad'.

Mae Deddf 2025 yn amlinellu cyfres o drefniadau, y bwriedir i rai ohonynt ddod i rym o 1 Ebrill 2026 ymlaen, a fydd yn y pen draw yn cyfyngu ar ddarpariaeth y gwasanaethau hyn (ac eithrio darpariaeth awdurdodau lleol) i endidau 'nid-er-elw' sydd wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). I fod yn endid 'nid-er-elw' cydnabyddedig, rhaid i ddarparwr:

- fod ag amcanion neu ddibenion sy'n ymwneud yn bennaf â lles plant (neu unrhyw fudd cyhoeddus arall a ragnodir gan Weinidogion Cymru)
- gweithredu o dan un o 4 math o ymgymeriad:
  - cwmni elusennol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau
  - sefydliad corfforedig elusennol
  - cymdeithas gofrestredig elusennol
  - cwmni buddiant cymunedol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau

Mae'r holl fodelau nid-er-elw hyn sy'n cael eu nodi yn Neddf 2025 yn bodloni'r egwyddor na ddylid talu difidendau i gyfranddalwyr neu aelodau ac y dylid ail-fuddsoddi unrhyw wargedion masnachu yn y gwasanaeth (gan gynnwys adeiladu cronfeydd priodol wrth gefn a gwariant cyfalaf).

Er mwyn sicrhau nad yw'r polisi yn cael ei danseilio gan arferion sy'n groes i'w ysbryd a'i fwriad, mae Deddf 2025 hefyd yn darparu y gall unrhyw daliadau afresymol neu anghymesur a wneir gan ddarparwr nid-er-elw gwasanaethau plant o dan gyfyngiad gael eu cymryd i ystyriaeth gan Weinidogion Cymru wrth benderfynu a yw darparwr yn berson addas a phriodol i gael ei gofrestru.

Mae gwefan Cyfraith Cymru yn darparu trosolwg o Ddeddf 2025 a'i datblygiad. Mae hyn yn cynnwys dolenni i'r ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sylfaenol, a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2022, a Memorandwm Esboniadol sy'n cynnig esboniad manwl o'r newidiadau deddfwriaethol a wnaed gan Ddeddf 2025, ynghyd ag asesiad o'r effeithiau rheoleiddiol ac effeithiau eraill a nodwyd.

## Gweithredu

Er mwyn cefnogi gweithredu Deddf 2025, mae angen newidiadau i reoliadau presennol a wnaed o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") sy'n ymwneud â chofrestru darparwyr gwasanaethau a datganiadau blynyddol darparwyr fel bod gan Weinidogion Cymru (AGC yn ymarferol) yr wybodaeth a'r sicrwydd angenrheidiol i benderfynu a yw darparwr yn

bodloni'r amodau nid-er-elw a nodir yn Neddf 2025. Bydd diffinio'r gofynion mewn rheoliadau yn sicrhau nad yw ein bwriad polisi – dileu elw o ofal plant – yn cael ei danseilio.

Bwriedir i'r rheoliadau hyn ddod i rym o 1 Ebrill 2026.

## Yr ymgynghoriad

Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos rhwng 16 Gorffennaf ac 8 Hydref 2025. Estynnwyd gwahoddiad i ymatebwyr gyflwyno'u barn drwy ddefnyddio ffurflen ar-lein, drwy e-bost neu drwy'r post. Anfonwyd hysbysiad o'r ymgynghoriad drwy e-bost at ystod o randdeiliaid sydd â diddordeb yn y cynigion a chyhoeddodd y Gweinidog ddechrau'r ymgynghoriad drwy Ddatganiad Ysgrifenedig.

## Yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad

Cafodd Llywodraeth Cymru 27 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Yn fras, roedd y rhain yn cynnwys cymysgedd o ddarparwyr unigol er-elw a nid-er-elw, awdurdodau lleol unigol a sefydliadau ymbarél sy'n cynrychioli buddiannau llywodraeth leol, darparwyr gwasanaethau a phlant a phobl ifanc. Cyflwynwyd ymateb ar y cyd ar ran Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru), Consortiwm Comisiynu Plant Cymru (y '4C'), Maethu Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). Ni wnaeth yr holl ymgyngoreion ymateb i holl benodau'r ymgynghoriad.

**Cwestiwn 1. Beth yw eich barn ar y newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau cofrestru? Rhannwch unrhyw awgrymiadau ar gyfer unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau yr hoffech eu gweld.**

Canolbwyntiodd llawer o'r ymatebwyr ar y rhesymeg polisi ehangach dros ddileu elw; naill ai'n ategu eu cefnogaeth neu eu gwrthwynebiad eang iddo neu'n myfyrio ar feysydd sydd eisoes wedi'u diffinio ar wyneb Deddf 2025 (megis yr ystod o fodelau nid-er-elw oedd wedi'u cynnwys).

O ran ymatebion penodol i'r newidiadau rheoleiddiol arfaethedig, codwyd rhai pryderon am yr effaith weinyddol bosibl ar ddarparwyr bach. Roedd hyn yn adlewyrchu pwyslais eang ymhlith ymatebwyr y dylid rheoli'r trefniadau'n ofalus, gyda chyfathrebu clir i randdeiliaid, a darparu buddsoddiad ychwanegol i gefnogi awdurdodau lleol a darparwyr drwy'r newid.

Roedd rhai ymatebwyr yn poeni am yr amserlen ar gyfer trefniadau cofrestru newydd, yn unol â'r polisi dileu elw, ac yn tynnu sylw at y risg y gallai proses bontio rhy gyflym amharu ar wasanaethau. Galwyd am ddull graddol neu hyblyg.

Pwysleisiodd sawl ymateb bwysigrwydd agwedd gymesur at y broses gofrestru. Roeddent yn gwerthfawrogi'r bwriad y byddai AGC dim ond yn gofyn am wybodaeth angenrheidiol i gadarnhau cydymffurfiaeth â'r gofynion nid-er-elw, ond yn poeni hefyd am y risg o ddyblygu gofynion rheoleiddiol presennol. Roedd awgrymiadau ymarferol yn cynnwys darparu rhestrau gwirio, amserlenni clir a phrosesau symlach sy'n ymwneud â chofrestru er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar ddarparwyr a'r rheoleiddiwr.

Roedd llawer o sylwadau yn galw am ddulliau monitro cadarn i sicrhau cydymffurfiaeth â llythyren ac ysbryd y ddeddf. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys cryfhau gallu'r rheoleiddiwr i graffu ar ddarparwyr, egluro rolau cyrff goruchwylio perthnasol a gwella rheolau cofrestru i gefnogi ymyrraeth gynnar a gorfodi. Argymhellwyd tryloywder mewn strwythurau ariannol ac adrodd gorfodol ar ail-fuddsoddi adnoddau.

Cynigiodd rhai ymatebwyr y dylid sefydlu panel cofrestru i sicrhau tryloywder a dealltwriaeth sector-benodol wrth wneud penderfyniadau. Gofynnodd eraill am arweiniad ar ddulliau llywodraethu da a'r buddion economaidd-gymdeithasol, gan godi cwestiynau am leoliadau trawsffiniol a thriniaeth plant y tu allan i Gymru. Hefyd, galwyd ar y llywodraeth i amlinellu sut y bydd yn denu a chefnogi darparwyr nid-er-elw i sicrhau digon o gapasiti yn y sector.

**Dadansoddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru:**

Roedd y rhesymeg polisi ehangach dros ddileu elw yn destun ymgynghoriad yn 2022 a chraffu helaeth wrth i'r Bil fynd rhagddo. Er bod y polisi bellach wedi'i sefydlu, rydym yn cydnabod cryfder parhaus y teimlad fel y'i mynegwyd mewn llawer o'r ymatebion a byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r sector gydol y broses weithredu er mwyn sicrhau ein bod yn dal i wrando ar safbwyntiau pobl.

O ran yr adborth penodol ar y newidiadau rheoleiddiol arfaethedig, rydym yn cydnabod bod y gofynion ychwanegol o fewn y broses gofrestru yn dasg ychwanegol

i ddarparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad ei chwblhau. Hefyd, rydym yn cydnabod y gallai'r baich ychwanegol hwn gael effaith fwy amlwg ar ddarparwyr llai sydd â llai o adnoddau. Fodd bynnag, credwn y dylid lliniaru'r effaith hon drwy waith AGC i gyfleu'r newidiadau arfaethedig yn rhagweithiol, yn ogystal â diweddaru canllawiau (sydd eisoes ar droed). O ran yr amserlenni, rydym yn cydnabod y risg bosibl o darfu ar wasanaethau ac wedi mabwysiadu dull graddol o weithredu, gyda darparwyr er-elw gwasanaethau plant o dan gyfyngiad yn cael eu hatal rhag amrywio eu cofrestriad i ychwanegu lleoliad neu wasanaeth plant o dan gyfyngiad arall o 1 Ebrill 2026 ac yna gyfyngiadau pellach ar ychwanegu gwelyau ychwanegol at gartrefi presennol neu gymeradwyo gofalwyr maeth ychwanegol o 1 Ebrill 2027. Er ein bod yn gwerthfawrogi'r awydd am hyblygrwydd, rydym o'r farn y bydd cael dyddiadau clir, cyson ar gyfer newid prosesau cofrestru ac ar gyfer y cyfyngiadau ehangach a ddisgrifiwyd o'r blaen yn sicrhau eglurder i ddarparwyr.

O ran cymesuredd, rydym yn cydnabod y gefnogaeth i ymagwedd gymesur at y broses gofrestru. Adlewyrchwyd hyn yn y ddogfen ymgynghori a ddisgrifiodd, ar gyfer y darparwyr er-elw hynny sy’n ceisio ailsefydlu fel endid nid-er-elw, y bydd AGC dim ond yn gofyn am yr wybodaeth ychwanegol sy'n angenrheidiol wrth gofrestru i gadarnhau cydymffurfiaeth, megis cymhwystra unrhyw Unigolyn Cyfrifol newydd a chysoni polisïau a dogfennau â'r endid cyfreithiol newydd. Mae hyn yn unol ag adborth ymgynghori sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd dull symlach.

O ran dulliau monitro cadarn ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r darpariaethau newydd sy'n gysylltiedig ag elw, mae hyn yn rhywbeth y mae AGC yn ei ddatblygu ar hyn o bryd wrth ddiweddaru ei phrosesau monitro a gorfodi yng ngoleuni'r ddeddfwriaeth newydd. Byddant yn parhau i roi gwybod i ddarparwyr wrth i brosesau gael eu diweddaru.

O ran yr awgrymiadau penodol am y broses gofrestru, bydd AGC yn ystyried y rhain hefyd fel rhan o'u gwaith parhaus i ddiweddaru prosesau cofrestru wrth baratoi i weithredu'r darpariaethau dileu elw. Mae AGC wedi sefydlu grŵp cyfeirio darparwyr, a fydd yn rhoi adborth ar unrhyw ddatblygiadau mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau sy'n cael eu datblygu, lle bo hyn yn briodol.

O ran Llywodraeth Cymru yn cefnogi darparwyr nid-er-elw i sicrhau digon o gapasiti yn y sector, mae swyddogion wedi bod yn ymgysylltu â darparwyr nid-er-elw drwy Ffrwd Waith 2 – Ehangu a datblygu darpariaeth nid-er-elw newydd – o dan y Bwrdd Rhaglen Dileu Elw cyffredinol. Bydd swyddogion yn parhau i ymgysylltu â'r sector nid-er-elw i ystyried sut y gellir cefnogi'r ddau ddarparwr nid-er-elw presennol i ehangu ond hefyd sut y gellir annog darpar ddarparwyr nid-er-elw i ymuno â’r sector.

**Cwestiwn 2. Pa effaith (gan gynnwys unrhyw gostau a/neu fuddion) y credwch y gallai'r newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau cofrestru ei chael ar sefydliadau neu sectorau gwahanol yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol?**

Fel y cwestiwn blaenorol, dewisodd llawer o'r ymatebwyr ganolbwyntio ar y rhesymeg polisi ehangach dros ddileu elw yn hytrach na myfyrio'n benodol ar effeithiau posibl y newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau cofrestru.

O ran yr ymatebwyr wnaeth ystyried yr effeithiau posibl, gwnaethant dynnu sylw at yr effaith ar gostau mewn rhyw ffurf, naill ai costau ariannol, gweinyddol neu weithredol. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo y gallai'r darparwr dalu costau ychwanegol o ganlyniad i'r newidiadau (e.e. ailstrwythuro, newidiadau llywodraethu, hyfforddi a recriwtio'r gweithlu a chostau gweinyddol ehangach). Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai maint yr effaith yn sgil y trefniadau newydd yn amrywio yn dibynnu ar faint, strwythur a model busnes pob darparwr. Roedd sawl ymatebwr yn teimlo y gallai'r costau hyn gael eu trosglwyddo i awdurdodau lleol drwy ffioedd lleoliad uwch, ac y gallai darparwyr llai wynebu straen oherwydd capasiti cyfyngedig. Hefyd, roedd pryder y gallai rhai darparwyr adael y farchnad neu weithredu endidau er-elw a nid-er-elw cyfochrog, sy'n gofyn am graffu rheoleiddiol agos i sicrhau tryloywder ariannol ac ansawdd gofal.

Dywedodd yr ymatebwyr y bydd angen adnoddau ychwanegol a chyngor arbenigol ar AGC i reoli'r llwyth gwaith cynyddol, yn enwedig os yw llawer o ddarparwyr yn ceisio cofrestru neu amrywio cofrestriad presennol tua'r un pryd. Galwyd hefyd am brosesau symlach i leihau oedi a mynd i'r afael â'r ôl-groniadau cofrestru. Gallai oedi wrth brosesu ceisiadau greu ansicrwydd ynghylch lleoliadau yn ogystal â recriwtio a hyfforddi'r gweithlu. Byddai sefyllfaoedd o'r fath yn cael eu gwaethygu pe bai darparwyr yn dewis oedi cyn cyflwyno unrhyw gais tan y dyddiad cau terfynol.

Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at fuddion posibl, a oedd yn ymwneud yn bennaf â ffactorau hirdymor neu amodol (e.e. ailfuddsoddi mewn gwasanaethau, safonau gwell, hyder y cyhoedd, tryloywder). Roedden nhw'n teimlo y byddai creu gofynion rheoleiddiol penodol o amgylch y rheolau, prosesau a phrofion tystiolaeth yn gwella tryloywder, atebolrwydd o ran darparu gwasanaethau ac yn ennyn mwy o hyder y cyhoedd yn y sector. Tynnodd rhai sylw at y gallu i amrywio yn hytrach nag ailgofrestru gwasanaeth presennol fel ffordd ymarferol o reoli'r baich gweinyddol.

Ategodd yr ymatebwyr yr angen am arweiniad a hyfforddiant priodol, yn enwedig i gefnogi'r darparwyr hynny sy'n dymuno ailsefydlu fel statws nid-er-elw. Argymhellodd yr ymatebwyr ddulliau cenedlaethol neu ranbarthol i osgoi dyblygu ymdrechion ac awgrymu y gallai cymorth gan sefydliadau ag arbenigedd perthnasol gefnogi'r darparwyr hynny i ailsefydlu fel endid nid-er-elw.

**Dadansoddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru:**

Fel gyda'r cwestiwn blaenorol, rydym yn cydnabod pa mor gryf yw'r teimladau am y polisi cyffredinol a byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r sector gydol y broses weithredu.

O ran y costau ychwanegol posibl a nodwyd gan yr ymatebwyr mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau cofrestru, tebyg i'r pwyntiau a godwyd mewn

ymateb i gwestiwn 1, rydym yn cydnabod yr effeithiau posibl, yn enwedig ar ddarparwyr llai o faint. Fodd bynnag, yn unol â'n hymateb i gwestiwn 1, rydym o'r farn y dylid lliniaru hyn drwy gyfathrebu rhagweithiol o'r newidiadau gan AGC i ddarparwyr, yn ogystal ag ymgysylltu â'r grŵp cyfeirio darparwyr lle bo hynny'n briodol. Rydym yn cydnabod bod rhai darparwyr wedi cynyddu eu taliadau i awdurdodau lleol yn ddiweddar, ond nid yw'n glir a yw'r costau ychwanegol disgwyliedig sy'n ymwneud â chofrestru yn ffactor yn hyn. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Chonsortiwm Comisiynu Plant Cymru ac ADSS Cymru i fonitro hyn ac ystyried gyda'n gilydd a oes modd cymryd camau pellach os yw hyn yn parhau i fod yn broblem. O ran y pryderon y gallai rhai darparwyr adael y farchnad, rydym yn cydnabod y gallai rhai darparwyr benderfynu gwneud hyn. Fodd bynnag, rydym wedi darparu cyllid i Cwmpas er mwyn gweithio gyda darparwyr gofal er-elw presennol sy'n ystyried ailsefydlu o dan un o'r pedwar model nid-er-elw. Mae cynghorwyr arbenigol yn cynnal trafodaethau cyfrinachol, wedi'u teilwra gyda darparwyr i asesu opsiynau ar gyfer ailsefydlu a mapio llwybrau posibl.

O ran yr adborth y bydd angen adnoddau ychwanegol ar AGC, rydym yn cydnabod hyn ac wedi rhoi cyllid ychwanegol i AGC i'w helpu gyda chostau gweithredu'r gwaith dileu elw, gan gynnwys cost staffio ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig i brosesau cofrestru. O ran yr alwad am brosesau symlach i leihau oedi wrth gofrestru, mae AGC wedi lleihau’r amser cyfartalog y mae’n ei dreulio yn adolygu ceisiadau am gofrestru dros y misoedd diwethaf ac wedi cyhoeddi canllawiau ychwanegol i ddarparwyr er mwyn egluro disgwyliadau ar yr hyn sy'n rhaid ei gyflwyno fel rhan o'r cais. Dylai hyn leihau'r amser y mae AGC yn ei dreulio yn mynd ar drywydd dogfennau sydd ar goll o fewn ceisiadau, gan leihau'r posibilrwydd o oedi ymhellach.

Rydym yn cydnabod y buddion posibl a amlygwyd gan ddarparwyr ochr yn ochr â'r angen am arweiniad a hyfforddiant priodol ar y prosesau newydd. Mae AGC wedi cynnal digwyddiadau a chymorthfeydd rheolaidd gyda darparwyr ochr yn ochr â chyhoeddi bwletinau rheolaidd i ddarparwyr ar y newidiadau allweddol. Fel y sonnir yn yr ymateb i gwestiwn 1, mae AGC wedi sefydlu grŵp cyfeirio darparwyr a fydd yn rhoi adborth ar unrhyw ddatblygiadau mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau sy'n cael eu datblygu (lle bo hynny'n briodol) a bydd yn parhau i ymgysylltu â'r sector ehangach ar adegau allweddol.

**Cwestiwn 3. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod y newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau cofrestru yn cael eu cefnogi gan ganllawiau cadarn er mwyn helpu darparwyr, plant sy'n derbyn gofal, eu teuluoedd a'u gofalwyr i ddeall sut y dylai'r system weithredu.**

**Pa bynciau neu faterion penodol y dylai'r canllawiau ymdrin â nhw er mwyn helpu pobl i ddeall y newidiadau i reoliadau?**

Roedd yr ymatebwyr yn teimlo y dylai canllawiau fod yn glir, yn ymarferol ac yn hygyrch i'r holl randdeiliaid, a'u bod yn cael eu cydgynhyrchu gyda'r sector i sicrhau eu bod yn diwallu eu hanghenion. Pwysleisiodd yr ymatebwyr y byddai ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid yn allweddol ar gyfer canllawiau effeithiol a sefydlog.

Teimlwyd y dylai unrhyw ganllawiau ddarparu diffiniad clir o fodelau 'nid-er-elw', a'r pedwar model gweithredu a ganiateir o dan y ddeddfwriaeth newydd. Dylai osod disgwyliadau clir i ddarparwyr ynghylch cydymffurfiaeth a'r dystiolaeth sy'n ofynnol i gefnogi unrhyw gais. Hefyd, teimlwyd y dylid rhoi sylw arbennig i drefniadau ariannol, cronfeydd wrth gefn ac enghreifftiau o arferion teg ac annheg ac y dylai egluro prosesau uwchgyfeirio a monitro i gefnogi dealltwriaeth a gorfodi.

Roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod angen canllawiau cam wrth gam ar ddarparwyr ar ofynion cofrestru, dogfennaeth ac amserlenni. Dylai canllawiau amlinellu cyfrifoldebau ychwanegol, megis cyhoeddi cyfrifon blynyddol a dangos statws nid-er-elw. Bydd cymorth i ailsefydlu fel sefydliad nid-er-elw - megis astudiaethau achos, gwasanaethau cynghori ac adnoddau ymarferol - yn helpu darparwyr i lywio drwy'r newidiadau yn rhwydd. Yn ogystal, nodwyd y dylai unrhyw ganllawiau, gan gynnwys cyfarwyddiadau cam wrth gam ar gyfer llywio'r gofynion cofrestru newydd, fod yn ddwyieithog.

Cafwyd awgrymiadau ychwanegol gan yr ymatebwyr i gynorthwyo prosesau cofrestru newydd. Roedd y rhain yn cynnwys

- cofrestr sengl, awdurdodol o ddarparwyr, wedi'i integreiddio â systemau presennol, i sicrhau tryloywder a chysondeb mewn goruchwyliaeth.
- bod awdurdodau lleol yn cael disgwyliadau clir a'u cefnogi i fonitro gwasanaethau eu plant, a'u bod yn datblygu cynlluniau wrth gefn ar gyfer lleoliadau a chadw'r gweithlu er mwyn lleihau unrhyw achosion o darfu os bydd darparwyr yn rhoi'r gorau i weithredu neu'n methu â chofrestru.

**Dadansoddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru:**

Rydym yn cydnabod yr angen am ganllawiau cadarn, clir a hygyrch er mwyn helpu i weithredu'r gofynion newydd yn y rheoliadau cofrestru. Fel y soniwyd yn yr ymatebion i gwestiynau blaenorol, bydd AGC yn diweddaru ei chanllawiau a'i phrosesau cofrestru ac mae wedi bod yn gwneud hynny gyda chyfraniad y sector. Bydd canllawiau ar gael ar-lein gyda newidiadau wedi'u cyfathrebu'n glir i'r sector.

O ran canllawiau sy'n diffinio'r modelau nid-er-elw yn glir, mae'r pedwar model hyn eisoes wedi'u diffinio'n glir drwy Ddeddf 2025, yn enwedig adran 3(3) sy'n mewnosod Adran 6B newydd - Cofrestru mewn perthynas â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad: diffiniadau – yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

("Deddf 2016”). Fodd bynnag, byddwn yn ystyried gydag AGC a oes angen ailadrodd hyn o fewn unrhyw ganllawiau ychwanegol. O ran gosod disgwyliadau clir ynghylch cydymffurfiaeth a'r dystiolaeth benodol sydd ei hangen i gefnogi unrhyw gais, mae AGC hefyd yn cydnabod hyn a bydd yn ystyried sut y mae'n rhan o’r canllawiau diweddaraf. O ran trefniadau ariannol, mae hyn yn ymwneud mwy ag elfennau dull monitro a gorfodi yr ymgynghoriad ac felly byddwn yn eu hystyried wrth ymateb i'r cwestiynau hynny (cwestiynau 7 i 9).

O safbwynt yr angen am ganllawiau cam wrth gam ar ofynion cofrestru, dogfennaeth ac amserlenni, rydym yn ddiolchgar am yr adborth penodol hwn ac mae'r AGC wrthi'n ystyried y pwyntiau hyn wrth ddiweddaru ei chanllawiau sy'n ymwneud â'r broses gofrestru. O ran canllawiau a chymorth i ailsefydlu fel sefydliad nid-er-elw, byddem o'r farn y byddai hyn yn gysylltiedig yn bennaf â'r cymorth a ddarperir gan Cwmpas. Bydd Llywodraeth Cymru ac AGC yn parhau i ymwneud â Cwmpas wrth iddyn nhw barhau i ymgysylltu â darparwyr unigol a byddant yn ystyried a oes modd rhannu unrhyw astudiaethau achos neu adnoddau ymarferol ychwanegol. O ran canllawiau sydd ar gael yn ddwyieithog, gallwn gadarnhau bod hyn yn arfer safonol i AGC, yn unol â safonau'r Gymraeg.

O ran cofrestr sengl o ddarparwyr, mae AGC eisoes yn cynnal cofrestr o ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig, gan gynnwys gwasanaethau i blant, fel rhan o'i dyletswyddau rheoleiddio. Mae gwybodaeth am wasanaethau rheoleiddiedig sydd wedi'u cofrestru gydag AGC yn cael ei chyhoeddi ar y cyfeiriadur gwasanaethau gofal ar wefan yr arolygiaeth.

Rydym yn cydnabod yr angen i awdurdodau lleol gael disgwyliadau clir a chymorth i weithredu. Rydym yn cefnogi ADSS Cymru i gydlynu a goruchwylio cynllunio, gweithredu a chefnogi awdurdodau lleol fel bod darpariaeth ledled Cymru yn gallu darparu ar gyfer anghenion y dyfodol a tharfu cyn lleied â phosibl ar wasanaethau.

**Cwestiwn 4. Beth yw eich barn chi am yr amseriadau arfaethedig a'r dull trosiannol o gofrestru?**

**Nodwch unrhyw oblygiadau neu risgiau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau hyn, gan gynnwys y cynnig i gyflwyno dyddiad cau ar gyfer ymdrin â cheisiadau fel pe bai'r ddeddfwriaeth flaenorol yn berthnasol**

Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn bod yr amseriadau arfaethedig a'r dyddiadau cau ar gyfer cofrestru yn rhesymol ond yn pwysleisio'r angen am eglurder a chysondeb. Roedd rhai yn teimlo y gallai cyflwyno dyddiad cau cadarn annog ceisiadau munud olaf, o bosibl gan sefydliadau sy'n ceisio gwneud elw yn hytrach na chyd-fynd ag ysbryd y ddeddfwriaeth newydd.

Awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen dull graddol, hyblyg o ymateb i reoliadau, gyda chyfnodau arweiniol estynedig, yn hytrach na gweithredu ar yr un pryd ar gyfer pob darparwr. Roeddent yn teimlo y byddai hyn, ynghyd â threfniadau monitro cadarn a rhannu gwybodaeth ehangach ar draws y sector, megis data gweithlu, yn helpu i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau, unrhyw bwysau sy'n codi o'r gweithlu neu ddigonolrwydd lleoliadau ac, yn y pen draw, yn darparu parhad gofal.

Fel gydag ymatebion blaenorol, argymhellwyd cyfathrebu a chanllawiau clir ar ddyddiadau cau i sicrhau bod gan ddarparwyr ddigon o amser i baratoi. Roedd yr ymatebwyr yn dweud bod angen canllawiau ymarferol clir i ddarparwyr, yn enwedig o ran y broses ar gyfer ailsefydlu fel cwmni nid-er-elw. Roedd cefnogaeth AGC a Llywodraeth Cymru, o ran ymgysylltu â darparwyr a'u helpu i baratoi, yn cael ei hystyried yn hanfodol i lywio'r trefniadau newydd ac osgoi ceisiadau brys neu rai wedi'u paratoi'n wael.

**Dadansoddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru:**

Rydym yn nodi'r adborth ynghylch y risg o ddyddiad cau cadarn sy'n annog ceisiadau munud olaf - ond yn credu bod gosod dyddiad penodol yn hanfodol i sicrhau dull clir a chyson (mae ymatebwyr hefyd yn pwysleisio'r angen am eglurder a chysondeb ynghylch amseriadau hefyd). Yr angen am eglurder a chysondeb yw'r rheswm pam ein bod wedi mabwysiadu dyddiad cau cyson ar gyfer pob gwasanaeth plant o dan gyfyngiad.

O ran y dyddiad cau penodol yn dilyn adborth gan ddarparwyr, rydym wedi cyhoeddi y bydd y dyddiad terfynol y bydd ceisiadau i gofrestru neu ychwanegu lleoliad neu wasanaeth plant o dan gyfyngiad yn cael eu hystyried dan yr hen ddeddfwriaeth yn cael ei addasu o 9 Ionawr 2026 i 31 Mawrth 2026. Bydd y trefniadau newydd yn rhoi rhagor o hyblygrwydd i'r rhai sy'n ystyried a ddylid cofrestru gwasanaethau newydd, neu'r rhai sy'n ystyried amrywio eu cofrestriad i ychwanegu gwasanaethau neu leoliadau ychwanegol.

O ran yr angen am gyfathrebu ac arweiniad clir ynghylch dyddiadau cau, rydym yn cydnabod hyn ac wedi bod yn gweithio'n agos gydag AGC a rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod negeseuon cyson yn cael eu rhannu â darparwyr. Bydd hyn yn parhau wrth i'r cam gweithredu fynd rhagddo.

**Cwestiwn 5: Beth yw eich barn ar y newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau datganiadau blynyddol?**

**Rhannwch unrhyw awgrymiadau ar gyfer unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau yr hoffech eu gweld.**

Roedd llawer o ddarparwyr yn cytuno'n eang â'r egwyddor gyffredinol bod datganiadau blynyddol yn hanfodol ar gyfer cynnal cydymffurfiaeth, atebolrwydd a thryloywder. Roedd rhai ymatebwyr yn cefnogi'r syniad o barhau i gyhoeddi'r datganiadau hyn er mwyn sicrhau tryloywder gan bwysleisio bod angen i'r datganiadau fod yn hygyrch ac yn ystyrlon i'r cyhoedd. Gwnaed awgrymiadau ychwanegol ar gyfer datganiadau blynyddol gan gynnwys crynodebau sy'n dangos ailfuddsoddiad mewn gofal plant, gofynion cyfrannol ar gyfer darparwyr llai a chynnwys darpariaeth Gymraeg a chanlyniadau sy'n canolbwyntio ar blant.

Er bod sawl ymatebydd yn cefnogi'r egwyddor o ddatganiadau blynyddol, cyfeiriodd rhai at heriau ymarferol, yn enwedig ar gyfer Unigolion Cyfrifol sy'n dwyn atebolrwydd cyfreithiol. Roedden nhw'n dweud y gallai darparwyr llai gael trafferth gyda'r baich gweinyddol, a allai arwain at gamgymeriadau a chamau gorfodi. Awgrymwyd atebion posibl, gan gynnwys canllawiau clir, templedi, hyfforddiant, offer digidol, gweithredu fesul cam a disgwyliadau wedi'u teilwra yn seiliedig ar faint a chymhlethdod y darparwr. Yn yr un modd, roedd sawl ymatebydd yn poeni y bydd y newidiadau arfaethedig yn golygu mwy o lwyth gwaith gweinyddol a chostau i ddarparwyr. Yn fwy cyffredinol, roedd rhywfaint o amheuaeth ynghylch gallu Llywodraeth Cymru i atal sefydliadau a gefnogir gan ecwiti preifat rhag manteisio ar fylchau, yn enwedig drwy fabwysiadu'r model Cwmni Buddiant Cymunedol. Gwnaed pwynt ehangach mai gofyn i bob Asiantaeth Faethu Annibynnol weithredu fel elusennau yw'r unig ffordd i atal darparwyr rhag gwneud elw.

Tynnodd rhai ymatebion sylw at yr angen am graffu ariannol cryfach i atal darparwyr rhag gwneud elw. Mae argymhellion yn cynnwys gofyn am gyfrifon manwl, datgelu trafodion partïon cysylltiedig, strwythurau perchnogaeth a datganiadau archwilwyr a chynghorwyr. Mae mynediad at gyngor ariannol fforensig arbenigol ar gyfer AGC yn cael ei ystyried yn hanfodol. Heb y mesurau diogelu hyn, roedd rhai ymatebwyr yn poeni y gallai rhai darparwyr gamfanteisio ar y trefniadau.

Fel y nodwyd mewn ymateb i gwestiynau blaenorol, roedd rhai ymatebwyr yn pryderu am allu AGC i fonitro cydymffurfiaeth yn effeithiol o ystyried cyfyngiadau adnoddau cyfredol. Galwodd rhai ymatebwyr am gyllid a staffio ychwanegol i adolygu datganiadau, ymchwilio i arferion ariannol a darparu arweiniad.

**Dadansoddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru:**

Rydym yn cydnabod y gefnogaeth i ddatganiadau blynyddol wrth gynnal cydymffurfiaeth, atebolrwydd a thryloywder a bydd y newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau yn cefnogi hyn. Bydd cyhoeddi datganiadau blynyddol yn parhau, er y bwriedir i'r cyfrifoldeb am gyhoeddi newid i'r darparwyr. O ran awgrymiadau y dylai datganiadau blynyddol gynnwys crynodebau hygyrch, er nad ydym yn bwriadu gwneud newidiadau pellach i'r broses datganiadau blynyddol ar hyn o bryd, heblaw'r rhai a ddisgrifir yn yr ymgynghoriad o ystyried yr angen i reoli effeithiau'r newidiadau

presennol ar y sector, byddwn yn ei gadw mewn cof ac yn ystyried a yw'n faes y gellir ei archwilio yn y dyfodol.

O ran yr heriau ymarferol posibl yn sgil y newidiadau arfaethedig, rydym yn cydnabod pryderon pobl am y baich gweinyddol posibl ar Unigolion Cyfrifol a darparwyr llai, ond mae'r risg yn fach iawn o ystyried y dylai fod yn ymarfer syml na ddylai fod yn anodd i'w gwblhau. Rydym yn gwerthfawrogi'r awgrymiadau ynghylch lliniaru'r risg hon – mae AGC wrthi'n diweddaru canllawiau ac offer yn ogystal ag ystyried sut i sicrhau dulliau cyfathrebu clir ynghylch disgwyliadau wedi'u teilwra. O ran gweithredu'n raddol, mae hyn eisoes yn rhan o'r broses weithredu ar lefel rhaglen gyda chyfyngiadau yn dechrau ar 1 Ebrill 2026, 2027 a 2030 yn y drefn honno. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod angen mabwysiadu dyddiad cyson ar gyfer gweithredu'r newidiadau i ddatganiadau blynyddol ar draws yr holl wasanaethau plant o dan gyfyngiad er mwyn sicrhau eglurder angenrheidiol i ddarparwyr ac AGC.

O ran y risg y bydd darparwyr o bosibl yn manteisio ar fylchau, yn enwedig drwy fodel y Cwmni Buddiant Cymunedol, mae hyn yn fwy perthnasol i adran arfaethedig yr ymgynghoriad sy'n ymwneud â'r dull monitro a gorfodi a byddwn yn ei drafod yn ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiynau cysylltiedig 7 i 9.

Yn unol â'r ymateb i gwestiynau blaenorol yn ymwneud ag adnoddau AGC, rydym wedi rhoi cyllid ychwanegol i AGC er mwyn helpu gyda chostau gweithredu'r gwaith dileu elw. Law yn llaw â'r costau staffio ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig i brosesau cofrestru, mae hyn hefyd yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer y costau ychwanegol sy'n ymwneud â monitro a gorfodi, o ganlyniad i weithredu'r gwaith dileu elw.

**Cwestiwn 6. Pa effaith (gan gynnwys unrhyw gostau a/neu fuddion) y credwch y gallai'r newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau datganiadau blynyddol ei chael ar sefydliadau neu sectorau gwahanol yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol?**

O ran effaith, tynnodd nifer o’r ymatebwyr sylw at bryderon am fwy o waith papur a gofynion amser sy'n deillio o'r newidiadau arfaethedig. Er bod un ymatebydd yn dweud efallai mai dim ond addasiadau cymedrol y bydd asiantaethau maethu annibynnol mwy yn eu hwynebu, gallai darparwyr llai brofi pwysau sylweddol o ran adnoddau. Codwyd pryderon gan rai am ganlyniadau anfwriadol posibl, yn enwedig i ddarparwyr llai. Gallai mwy o feichiau gweinyddol ac ariannol fygwth eu hyfywedd, gan arwain at lai o opsiynau lleoliad a mwy o ansefydlogrwydd i blant ag anghenion cymhleth. Mae'r awgrymiadau yn cynnwys defnyddio systemau adrodd sy'n seiliedig ar dempledi i leihau cymhlethdod ac osgoi dyblygu ceisiadau am wybodaeth.

O ran y buddion posibl, roedd sawl ymatebydd yn cydnabod y gallai datganiadau blynyddol wella tryloywder, hyder y cyhoedd a helpu awdurdodau lleol i gynllunio'n well. Byddai adroddiad ariannol clir yn helpu i fonitro cydymffurfiaeth â'r model nid-er-elw a lleihau risgiau gwneud elw. Fodd bynnag, pwysleisiodd rhai ymatebwyr fod y buddion hyn yn dibynnu ar weithredu a monitro cadarn, wedi'i ategu gan ganllawiau clir a gofynion cymesur.

Fel pwynt mwy cyffredinol, galwodd sawl ymatebydd am eglurder ar gamau gorfodi, cosbau a throthwyon o dan Adran 47 o Ddeddf 2016. Nodwyd y gallai costau cydymffurfio godi a gellir eu trosglwyddo i awdurdodau lleol drwy brisiau lleoliad uwch. Hefyd, nododd yr ymatebwyr y bydd angen adnoddau ychwanegol ar gyfer monitro effeithiol ac arbenigedd ariannol arbenigol ar gyfer AGC ac awdurdodau lleol.

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at y newidiadau arfaethedig i gyhoeddi datganiadau blynyddol darparwyr sy'n rhan o ymgynghoriad arall Llywodraeth Cymru ar newidiadau arfaethedig i drefniadau rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a oedd hefyd yn cynnig newidiadau i ddatganiadau blynyddol. Yn gysylltiedig â hyn, roedd yr heriau gweithredol posibl a godwyd gan ymatebwyr yn cynnwys yr angen am seilwaith digidol i gyhoeddi datganiadau blynyddol, yn enwedig ar gyfer sefydliadau sy'n rheoli sawl cartref. Awgrymodd yr ymatebwyr opsiynau fel datganiadau ar y cyd ar gyfer darparwyr aml-safle a dulliau cyhoeddi amgen i'r rhai heb allu digidol. Argymhellwyd hyfforddiant, cymorth gweinyddol a gweithredu fesul cam i liniaru risgiau a sicrhau cydymffurfiaeth heb greu gormod o faich biwrocratiaeth.

**Dadansoddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru:**

Fel gydag ymatebion i'r cwestiwn blaenorol, rydym yn cydnabod y pryderon am y baich gweinyddol ychwanegol posibl. Er hynny, rydym yn ystyried bod y risg yn isel iawn o gofio y dylai fod yn broses hawdd na ddylai fod yn anodd i'w chwblhau. Bydd canllawiau AGC yn gosod disgwyliadau clir ar yr hyn sydd ei angen, gan leihau'r risg o unrhyw ddyblygu posibl. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gydag AGC i sicrhau bod prosesau sy'n ymwneud â'r gofynion datganiadau blynyddol newydd yn gymesur ac yn effeithlon.

Rydym yn cydnabod buddion posibl y newidiadau arfaethedig i ddatganiadau blynyddol a ddyfynnwyd gan sawl darparwr ac yn cytuno y bydd y rhain yn fecanwaith allweddol ar gyfer tryloywder a hyder y cyhoedd.

O ran eglurder ynghylch arferion gorfodi, bydd AGC yn parhau i gyfathrebu â darparwyr ar gamau allweddol ac yn sicrhau bod canllawiau clir ar gael gan AGC fel y bo'n briodol.

Yn olaf, yn achos heriau posibl y newidiadau arfaethedig i ddatganiadau blynyddol, rydym yn trafod hyn mewn ymateb i ymgynghoriad ar wahân ar newidiadau arfaethedig i drefniadau rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a gyhoeddwyd yma.

**Cwestiwn 7. Beth yw eich barn ar y dull arfaethedig o fonitro a gorfodi ar gyfer trefniadau ariannol afresymol neu anghymesur?**

Roedd rhai ymatebwyr yn amheus am y dull arfaethedig o fonitro a gorfodi, gan awgrymu y gallai annog arferion gwael a methu ag atal darparwyr rhag gwneud elw. Roedd pryderon yn canolbwyntio ar yr anallu canfyddedig i blismona strwythurau ariannol cymhleth, yn enwedig y rhai a gefnogir gan ecwiti preifat, a'r risg y bydd darparwyr yn manteisio ar fylchau megis y model cwmni buddiant cymunedol (fel y dyfynnwyd mewn ymatebion i gwestiynau blaenorol). Rhybuddiodd un ymatebydd y gallai rhai darparwyr wario mwy ar gyfrifwyr nag y gall rheoleiddwyr ar orfodi, gan arwain at fonitro aneffeithiol.

Roedd ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cytuno bod eglurder a sicrwydd yn hollbwysig. Gwnaeth rhai dynnu sylw at yr angen am ddiffiniadau clir o drefniadau ariannol "afresymol" ac "anghymesur", wedi'u hategu gan drothwyon a chanllawiau ymarferol. Heb hyn, roedd rhai ymatebwyr yn poeni am ansicrwydd cyfreithiol a chamau gorfodi posibl. Roedd rhai awgrymiadau penodol yn cynnwys cyhoeddi enghreifftiau o gronfeydd wrth gefn derbyniol a chynllunio wrth gefn er mwyn osgoi amwysedd.

Daeth capasiti ac adnoddau i'r amlwg fel thema hefyd. Roedd rhai'n cwestiynu a oes gan AGC yr arbenigedd a'r cyllid i fonitro trefniadau ariannol cymhleth yn effeithiol. Nododd yr ymatebwyr y gallai fod angen cyfrifyddu fforensig i ganfod elw cudd, a allai fod yn gostus a defnyddio llawer iawn o adnoddau. Roedd y dull arfaethedig o weithio gyda rheoleiddwyr eraill megis y Comisiwn Elusennau yn cael ei ystyried yn synhwyrol gan sawl ymatebydd, er bod eraill hefyd yn poeni am y risg o ailadrodd a chydlynu effeithiol. Roedd argymhellion yn cynnwys sianeli adrodd clir ar gyfer pryderon a mecanweithiau i ddiogelu sefydlogrwydd lleoliad yn ystod ymchwiliadau. Heb y mesurau diogelu hyn, rhybuddiodd yr ymatebwyr y gallai'r dull ddod yn fiwrocrataidd, yn gostus ac yn aneffeithiol, gan danseilio'r nod craidd o wella canlyniadau i blant.

Hefyd, pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd cymesuredd a gorfodi sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gan nodi'r risg y gallai datgofrestru neu orfodi sydyn ansefydlogi lleoliadau, gan darfu ar blant ag anghenion cymhleth. Galwodd sawl un am ddulliau ymyrraeth gynnar, polisïau uwchgyfeirio clir a chyfnodau hysbysu er mwyn caniatáu i awdurdodau lleol gynllunio ar gyfer parhad gofal. O ran y dull monitro a gorfodi, pwysleisiodd rhai ymatebwyr y dylai hyn flaenoriaethu adfer dros gosbi.

**Dadansoddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru:**

Rydym yn cydnabod y pryderon am heriau monitro strwythurau ariannol cymhleth a'r risg bosibl o ddarparwyr yn gallu nodi a manteisio ar fylchau posibl. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymrwymo i sicrhau bod yr egwyddor nid-er-elw yn cael ei chynnal. I gyflawni hyn, byddwn yn gweithio'n agos gydag AGC a rheoleiddwyr eraill i fonitro goruchwyliaeth yn y blynyddoedd cyntaf o weithredu. Er ein bod yn cydnabod y gallai rhai darparwyr gael mynediad at adnoddau sylweddol, bydd ein dull yn canolbwyntio ar ofynion adrodd clir a gorfodi cymesur i gynnal hyder yn y system. Byddwn yn adolygu'r dull monitro a gorfodi ac yn gwneud newidiadau ychwanegol os oes angen.

O ran yr angen am eglurder a sicrwydd a ddyfynnwyd gan nifer o'r ymatebwyr, rydym yn cytuno bod hyn yn hanfodol. Ein nod ni ac AGC yw sicrhau bod gan ddarparwyr ddealltwriaeth glir o'r disgwyliadau a'u bod yn gallu gweithredu'n hyderus o fewn y fframwaith, a byddwn yn sicrhau bod hyn yn cael ei gyfathrebu. Er hynny, rydym yn cydnabod bod gwaith ychwanegol i'w wneud o hyd a bod rhaid i'r dull monitro a gorfodi esblygu dros amser yn dibynnu ar y mathau o sefydliadau nid-er-elw sy'n cofrestru a'r math o faterion monitro a gorfodi sy'n dod i'r amlwg wedyn, a'u maint.

Rydym yn cydnabod pryderon rhai ymatebwyr am allu ac arbenigedd. Fel y cyfeiriwyd ato'n flaenorol, rydym yn cefnogi AGC gydag adnoddau ychwanegol ac mae cynllun wrth gefn ar waith i ystyried mynediad at gyngor ariannol arbenigol lle bo angen. Mae AGC wrthi'n sefydlu cytundebau/memoranda cyd-ddealltwriaeth ffurfiol gyda rheoleiddwyr eraill, i rannu gwybodaeth ac osgoi dyblygu. Ar ben hynny, rydym yn cydnabod pwysigrwydd sianeli adrodd clir fel bod modd codi pryderon yn brydlon, rhywbeth y mae AGC yn ymwybodol ohono hefyd.

Rydym yn rhannu'r farn bod rhaid i orfodi fod yn gymesur ac mae hyn yn unol â pholisïau gorfodi presennol AGC. Fel y rheini, bydd yr egwyddorion gorfodi yn canolbwyntio ar yr egwyddor o lwybr gorfodi clir, graddedig a chymesur. Bydd hyn yn parhau i gyd-fynd â phrif bryder AGC o sicrhau bod darparwyr yn cefnogi plant i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl a'u cadw'n ddiogel. Mae hyn yn cynnwys yr angen am barhad gofal a tharfu cyn lleied â phosibl ar blant, gyda lleoliad sefydlog yn ystyriaeth allweddol o hyd.

**Cwestiwn 8. Pa effaith (gan gynnwys unrhyw gostau a/neu fuddion) y credwch y gallai'r dull arfaethedig o fonitro a gorfodi ar gyfer trefniadau ariannol afresymol neu anghymesur ei chael ar sefydliadau neu sectorau gwahanol yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol?**

Ategodd sawl ymatebydd y ffaith y bydd angen cryn dipyn o adnoddau sylweddol i AGC wneud gwaith monitro a gorfodi. Gallai staffio, arbenigedd a goruchwyliaeth annigonol achosi risg o orfodi anghyson neu oedi, gan danseilio effeithiolrwydd y polisi yn y pen draw.

Barn eang yr ymatebwyr oedd y byddai angen rheoli unrhyw ddull yn ofalus. Yn unol ag ymatebion blaenorol, nododd rhai ymatebwyr y gallai monitro gwell wella tegwch, tryloywder a hyder y cyhoedd, gan atal arferion ariannol sy'n camfanteisio ar y sefyllfa. Byddai gorfodi effeithiol i atal darparwyr rhag gwneud elw yn atal y risg o gamymddwyn ariannol ac yn hyrwyddo lefelau uwch o ailfuddsoddi, gan greu gwerth am arian i gomisiynwyr a'r cyhoedd. Roedd mesurau llwyddiannus yn dibynnu ar gydlynu rhwng AGC a rheoleiddwyr eraill, wedi'i ategu gan gytundebau rhannu gwybodaeth ffurfiol a buddsoddiad mewn hyfforddiant a systemau.

Yn debyg i ymatebion blaenorol, teimlwyd hefyd y gallai sefydliadau mwy ddefnyddio strwythurau rhy gymhleth i osgoi craffu, tra gallai darparwyr llai gael eu gorlethu. Gallai effaith unrhyw gostau cynyddol a beichiau gweithredol, yn enwedig i ddarparwyr llai, arwain atynt yn gadael y farchnad a bod llai o leoliadau ar gael i blant, yn enwedig lleoliadau brys. Byddai hyn yn ei dro yn creu baich emosiynol ychwanegol ar y gweithlu a phlant mewn gofal, yn enwedig os yw gorfodi yn cael ei ystyried yn gosb neu'n anghyson.

Yn olaf, pwysleisiodd yr ymatebwyr yr angen am drefniadau gorfodi clir, teg a chanllawiau wedi'u cydgynhyrchu i osgoi creu baich a chostau diangen. Byddai'r dull hwn yn atgyfnerthu uniondeb ac atebolrwydd ar draws y sector.

**Dadansoddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru:**

Fel gyda'n hymateb i gwestiynau blaenorol ynglŷn ag adnoddau, mae AGC wedi cael adnoddau ychwanegol i gefnogi costau gweithredu'r gwaith dileu elw.

Rydym yn cydnabod bod cefnogaeth eang i nodau'r dull arfaethedig o fonitro a gorfodi, ond rydym yn ymwybodol o bryderon a godwyd ynghylch gweithredu ymarferol a chanlyniadau anfwriadol posibl.

Rydym yn cytuno bod angen rheoli gofalus, ac mae AGC yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill i sicrhau dull sydd wedi'i ystyried yn ofalus, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol fel y bo'n briodol. Mae hyn yn cynnwys gwaith i archwilio sefyllfaoedd a mecanweithiau lle gall darparwyr wneud elw, yn ogystal ag ystyried offer presennol sy'n monitro costau'r farchnad ac yn nodi eithriadau. Gyda'i gilydd, y nod yw mynd i'r afael â senarios posibl lle mae strwythurau rhy gymhleth yn cael eu mabwysiadu i osgoi craffu, ond fel gyda'r ymateb blaenorol, rydym yn cydnabod y gallai'r dull monitro a gorfodi orfod esblygu dros amser yn dibynnu ar y materion monitro a gorfodi sy'n codi wedyn.

O ran yr angen am drefniadau gorfodi clir, teg, rydym yn cytuno â hyn. Yn unol â'n hymateb i'r cwestiwn blaenorol, mae'r egwyddor o degwch yn cyd-fynd â pholisïau gorfodi presennol AGC ochr yn ochr â'r egwyddor o lwybr gorfodi clir, graddedig a chymesur.

**Cwestiwn 9: Byddwn yn gweithio i sicrhau bod y dull arfaethedig o fonitro a gorfodi ar gyfer trefniadau ariannol afresymol neu anghymesur yn cael ei gefnogi gan ganllawiau cadarn er mwyn helpu darparwyr, plant sy'n derbyn gofal, eu teuluoedd a'u gofalwyr i ddeall sut y bydd y system yn gweithredu.**

**Pa bynciau neu faterion penodol y dylai'r canllawiau eu cwmpasu er mwyn disgrifio'r dull arfaethedig ymhellach?**

Yn unol ag ymatebion blaenorol, roedd galwad am negeseuon cyfathrebu clir, hygyrch ac amserol i ddarparwyr. Yn debyg i ymatebion blaenorol, pwysleisiodd sawl ymatebydd yr angen am ddiffiniadau clir o'r hyn sy'n gyfystyr â threfniadau ariannol "afresymol" neu "anghymesur" ochr yn ochr ag enghreifftiau, trothwyon ac astudiaethau achos i ddangos arferion derbyniol ac annerbyniol.

Hefyd, galwyd am eglurder ynghylch yr hyn sy'n cael ei ystyried yn warged rhesymol a sut y gellir ei ddefnyddio o ran ailfuddsoddi a thaliad cydnabyddiaeth, yn ogystal â thryloywder ynghylch y defnydd o fenthyciadau a strwythurau ariannol o fewn darparwyr nid-er-elw.

Dylai canllawiau fynd i'r afael â llwybrau uwchgyfeirio, camau gorfodi, amserlenni a hawliau darparwyr i ymateb neu apelio yn erbyn penderfyniadau hefyd. Roedd cryn bwyslais ar sicrhau bod canllawiau yn rôl-benodol ac yn gymesur, gyda chanllawiau gweithredol manwl ar gyfer darparwyr ac AGC, sy'n amlinellu'r prosesau ar gyfer ymchwilio, gorfodi ac apeliadau, yn ogystal â rolau a chyfrifoldebau AGC ac awdurdodau lleol.

Tra bod rhai ymatebwyr yn galw am grynodebau ariannol hawdd eu deall i rieni, gofalwyr a phobl ifanc i'w helpu i ddeall y system, roedd eraill yn teimlo na ddylai plant a theuluoedd gael eu gorlethu â manylion ariannol. Yn hytrach, dylent gael sicrwydd bod penderfyniadau'n cael eu gwneud er eu lles pennaf nhw. Hefyd, argymhellwyd y dylai gwybodaeth hygyrch fod ar gael ar sut i godi pryderon a'r cymorth sydd ar gael yn achos datgofrestru darparwr.

**Dadansoddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru:**

Yn unol â'n hymatebion i gwestiynau blaenorol ynglŷn â chanllawiau, rydym yn cytuno â'r angen am ganllawiau clir, hygyrch a chyfathrebu amserol ac mae AGC yn ymgysylltu, lle bo hynny'n briodol, â grŵp cyfeirio darparwyr penodol fel rhan o'r dasg o ddiweddaru eu canllawiau a'u prosesau. Disgwylir i'r ymgysylltiad hwn barhau drwy'r cam gweithredu, gyda chymorth cyfathrebu rhagweithiol ar bwyntiau allweddol. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag AGC i gydlynu cyfathrebu, yn ogystal ag ymgysylltu â phartneriaid awdurdodau lleol a Gofal Cymdeithasol Cymru i gydlynu negeseuon cyson. Rydym yn gwerthfawrogi'r awgrymiadau penodol ar gyfer canllawiau sydd wedi'u rhannu gydag AGC i'w hystyried fel rhan o'u proses barhaus o ddiweddaru eu cyfres o ganllawiau a phrosesau cyn eu rhoi ar waith.

**Cwestiwn 10: Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y cynigion ar y Gymraeg?**

**Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

- **Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?**
- **Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?**

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd nifer yn cyd-fynd â thema gyffredin, sef er na fydd y cynigion o bosibl yn newid arferion presennol yn sylweddol, maen nhw'n cyflwyno cyfle gwerth chweil i atgyfnerthu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector gofal. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gallai darpariaeth nid-er-elw roi hwb i'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig os oes rhaid i ddarparwyr ystyried y Gymraeg mewn cynlluniau ailfuddsoddi. Roedd eraill yn pryderu y gallai darparwyr llai sy'n siarad Cymraeg gael trafferth gyda'r gofynion newydd, gan arwain at lai o fynediad at ofal cyfrwng Cymraeg.

Pwysleisiodd ymatebwyr fod angen i bob deunydd fod yn gwbl ddwyieithog, gan fodloni safonau'r Gymraeg a'r cyd-destun diwylliannol. Gwnaethant bwysleisio triniaeth gyfartal i wasanaethau Saesneg a Chymraeg, gan argymell "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg i wasanaethu defnyddwyr Cymraeg eu hiaith.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai canllawiau ymwreiddio safonau'r Gymraeg ym mhob proses a bod pob darparwr yn rhannu cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Roedd rhai'n teimlo y dylai fod cefnogaeth i ddarparwyr llai nad oes ganddynt yr adnoddau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog.

Hefyd, roedd sawl ymatebydd yn teimlo bod angen i'r broses gofrestru fonitro'r ddarpariaeth a chydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg yn llawn, o ran darparu gwasanaethau ac adrodd.

Fel pwynt cyffredinol, roedd rhai ymatebwyr yn argymell y dylai datblygu'r gweithlu gynnwys buddsoddi a meithrin sgiliau Cymraeg yn y gweithlu, a recriwtio gofalwyr sy'n siarad Cymraeg. Gallai canllawiau hefyd nodi'r defnydd o hyfforddiant a bod seminarau a gynigir gan reoleiddwyr ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

**Dadansoddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru:**

O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gyhoeddi dogfennau yn Gymraeg a Saesneg. Pan fydd y sefydliadau hyn yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig, bydd hyn yn cynnwys eu datganiadau blynyddol. Mae gan ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig eraill yr opsiwn i gyhoeddi eu datganiadau blynyddol naill ai'n Saesneg yn unig, yn Gymraeg yn unig, neu yn y ddwy iaith.

**Cwestiwn 11: Yn eich barn chi, a ellid geirio neu newid y cynigion er mwyn:**

- **cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**
- **lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

Mynegwyd barn gymysg mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Er bod rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai'r cynigion yn cael effaith niwtral, roedd eraill yn gweld cyfleoedd clir i gryfhau'r dull gweithredu, hyrwyddo cynhwysiant ieithyddol a hunaniaeth ddiwylliannol, a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gallai'r cynigion wella'r defnydd o'r Gymraeg drwy gymell recriwtio gofalwyr maeth sy'n siarad Cymraeg. Gallent hefyd ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gyhoeddi cynlluniau iaith Gymraeg ac adrodd ar y ddarpariaeth. Byddai cyhoeddi canllawiau a chyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hyrwyddo darpariaeth ddwyieithog a thriniaeth gyfartal o'r Gymraeg.

Mae sawl mesur ymarferol i wella effaith gadarnhaol y rheoliadau cofrestru ar y Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys cymell a chefnogi'r gwaith o recriwtio gofalwyr maeth sy'n siarad Cymraeg, ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gyhoeddi cynlluniau iaith Gymraeg ac adrodd ar ddarpariaeth Gymraeg mewn datganiadau blynyddol, a chynnig cyllid grant i helpu i ehangu'r gallu yn y Gymraeg. Awgrymwyd cymorth wedi'i dargedu i ddarparwyr llai mewn ardaloedd Cymraeg hefyd.

Roedd rhai darparwyr o'r farn y gallai darpariaeth Gymraeg gael ei hanwybyddu neu ddioddef o ddiffyg adnoddau o dan unrhyw drefniadau newydd, yn enwedig gan ddarparwyr llai. Er mwyn lliniaru'r risgiau hynny, gellid sefydlu dull monitro parhaus o fetrigau iaith. Byddai hwyluso ymgynghori a deialog briodol rhwng darparwyr, rheoleiddwyr ac eiriolwyr iaith Gymraeg hefyd yn helpu i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol sy'n dod i'r amlwg.

Ar y cyfan, mae'r ymatebion yn awgrymu y gellid cryfhau'r cynigion drwy orfodi pawb i gyhoeddi'n ddwyieithog, cynnig cymorth ymarferol i ddarparwyr ac ymwreiddio ystyriaethau Cymraeg yn fwy cadarn o fewn y fframwaith rheoleiddio. Byddai'r mesurau hyn yn helpu i hyrwyddo cydraddoldeb ieithyddol a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau gofal.

**Dadansoddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo a'i gwarchod dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018. *Yn unol â'r gofynion hyn, rhaid i wasanaethau wneud Cynnig Rhagweithiol drwy ddarparu gwasanaethau Cymraeg, fel y gall pobl gael mynediad atynt heb ofyn, gan sicrhau cydraddoldeb a pharch at ddewis iaith.*

Mae AGC yn gwneud cyfraniad pwysig at fonitro a gorfodi gofynion iaith Gymraeg o fewn gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant. Mae AGC yn sicrhau bod

ffurflenni, dogfennau canllawiau a'r rhan fwyaf o gyhoeddiadau ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Wrth gofrestru, mae AGC yn cadarnhau dewis iaith y darparwr ac yn gwirio hyn drwy gasglu data blynyddol. Mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol gynnwys gwybodaeth am eu darpariaeth Gymraeg yn eu Datganiad o Ddiben, ac mae AGC yn monitro hyn fel rhan o'i brosesau cofrestru ac arolygu.

Mae ystod eang o gymorth i helpu darparwyr i gryfhau eu darpariaeth Gymraeg eisoes ar waith. Mae AGC yn darparu templedi a chanllawiau dwyieithog er mwyn helpu darparwyr i gyflawni eu rhwymedigaethau.

**Cwestiwn 12: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol.**

**Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael a nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i roi gwybod amdanynt.**

Gwnaeth yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn godi amrywiaeth o faterion.

Argymhellodd un ymatebydd ei bod hi'n ofynnol i bob darparwr cofrestredig gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth ymweld preswyl annibynnol , gan fod hynny'n hanfodol ar gyfer amddiffyn hawliau plant, lles a pharhad gofal.

Ategodd un ymatebydd bwynt a wnaed mewn cwestiynau blaenorol ynglŷn â'r pryder y gallai cwmnïau er-elw fanteisio ar drefniadau deddfwriaethol, yn benodol drwy brydlesu asedau cyfalaf i gwmnïau buddiant cymunedol am brisiau uwch. Mae'r ymatebwyr yn cynghori cydweithrediad cryf rhwng Llywodraeth Cymru a darparwyr i sicrhau bod y broses yn parhau i fod yn drylwyr ac yn effeithiol.

Awgrymodd un ymatebydd fod asesiadau o ddigonolrwydd lleoliad a hyfywedd y farchnad yn cael eu cynnal i ganfod nifer tebygol y newydd-ddyfodiaid a'r posibilrwydd o golli darparwyr presennol. Gall ansefydlogrwydd godi os bydd darparwyr lleol yn gadael, gan leihau gofal cyfagos a chynyddu dibyniaeth ar leoliadau y tu allan i'r ardal.

Defnyddiodd rhai ymatebwyr y cwestiwn hwn i ailadrodd yr angen am arweiniad a chynllunio clir mewn cydweithrediad â'r sector, er bod awgrymiadau yn aml yn cyfeirio at y bwriad polisi ehangach. Roedd yr awgrymiadau hynny'n cynnwys mwy o eglurder am leoliadau trawsffiniol, a chaniatáu mwy o hyblygrwydd deddfwriaethol i addasu neu wrthdroi newidiadau pe bai colli darpariaeth yn bygwth parhad y gwasanaeth a lles plant.

**Dadansoddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae rhai materion a godwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn wedi cael sylw mewn mannau eraill yn yr adroddiad ymateb cryno, ac nid ydym yn eu hailadrodd yma. Serch hynny, rydym yn croesawu'r ymgysylltiad eang a'r adborth adeiladol a gafwyd ar y rheoliadau cofrestru arfaethedig a'r polisi ehangach i ddileu elw o ofal plant.

O ran yr awgrym y dylai darparwyr cofrestredig gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth ymweld preswyl annibynnol - er ein bod ni'n cydnabod gwerth eiriolaeth, nid yw'n fater sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd o fewn cwmpas y gwaith ar ddileu elw.

O safbwynt yr awgrym i gynnal asesiadau o ddigonolrwydd lleoliadau a hyfywedd y farchnad yn y dyfodol, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi cynlluniau digonolrwydd blynyddol. Mae Deddf 2025 yn mewnosod adran 75A newydd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n ymwneud â pharatoi a chyhoeddi cynlluniau digonolrwydd blynyddol awdurdodau lleol. Bwriad y cynlluniau hyn yw hyrwyddo dull cydlynol o gynllunio a darparu gwasanaethau nid-er-elw o fewn awdurdodau lleol, yn ôl anghenion lleol ac ailgydbwyso darpariaeth gofal a chymorth yn ehangach. Rydym wedi gweithio gydag ADSS Cymru i ystyried cynnwys y cynlluniau hyn ac yn bwriadu ymgynghori ar gynigion yn ystod gwanwyn 2026.

**Y Camau nesaf**

Bydd Rheoliadau Datganiadau Blynyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 a Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2026 yn cael eu dwyn gerbron y Senedd ym mis Ionawr 2026.

Yn amodol ar y rhai sy'n ymwneud â datganiadau blynyddol yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd, a'r rhai sy'n ymwneud â chofrestru ddim yn cael eu diddymu gan y Senedd, byddant yn dod i rym ar 1 Ebrill 2026.

Bydd yr holl ddogfennau drafft ar gael ar wefan y Senedd: Is-ddeddfwriaeth (senedd.cymru).

Unwaith y bydd mewn grym, o 1 Ebrill 2026, rhaid i ddarparwyr newydd sydd am gofrestru gydag AGC i ddarparu gwasanaeth plant o dan gyfyngiad gadarnhau eu bod yn un o'r pedwar model nid-er-elw wrth gofrestru.  Bydd rhaid i ddarparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad hefyd wneud datganiad ym mhob un o'u datganiadau blynyddol dilynol, eu bod yn bodloni (ac yn parhau i fodloni) y diffiniad o endid nid-er-elw.

O 1 Ebrill 2026, ni chaniateir i unrhyw wasanaethau plant o dan gyfyngiad newydd gofrestru gydag AGC oni bai bod y darparwr yn un o'r mathau penodedig o sefydliadau nid-er-elw. Ni fydd darparwyr presennol y gwasanaethau hyn yn gallu gwneud cais i AGC i amrywio eu cofrestriad i ychwanegu lleoliad neu wasanaeth newydd, oni bai bod y darparwr yn un o'r mathau penodedig hynny o sefydliad nid-er-elw. Yn dilyn adborth gan ddarparwyr, mae'r dyddiad cau ar gyfer pryd y byddai AGC yn gallu ystyried cais i gofrestru neu ychwanegu lleoliad neu wasanaeth plant o dan gyfyngiad o dan y ddeddfwriaeth flaenorol wedi'i addasu o ddechrau mis Ionawr (fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad) i 31 Mawrth 2026. Nodwyd y dyddiad 31 Mawrth 2026 o fewn Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2025 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2025 a wnaed ar 28 Tachwedd 2025.

O 1 Ebrill 2027, y bwriad yw na cheir ychwanegu unrhyw welyau ychwanegol at gartrefi plant 'er-elw' presennol ac na fydd modd i unrhyw ofalwyr maeth newydd gael eu cymeradwyo gan ddarparwyr gwasanaethau maethu 'er-elw' presennol.

Bydd effaith y rheoliadau yn cael ei monitro'n agos. Mae swyddogion yn ymgysylltu'n rheolaidd â phartneriaid ar draws y sector i gael gwybodaeth am y farchnad, gan gynnwys ymgysylltu'n rheolaidd ag AGC a thrwy'r corff cenedlaethol o waith a wneir drwy'r Bwrdd Rhaglen Dileu Elw, ochr yn ochr ag adroddiadau ehangach i sicrhau tegwch ac effeithiolrwydd. Yn fwy cyffredinol, disgwylir i'r polisi dileu elw cyffredinol fod yn destun gwerthusiad ffurfiol dros y blynyddoedd i ddod.

Bydd unrhyw drefniadau pellach sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau arfaethedig hyn yn destun penderfyniadau polisi ac ymgynghori pellach.

**Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr i'r ymgynghoriad**

Rhestr o'r ymatebwyr a lenwodd y ffurflen ac a oedd yn fodlon i ni rannu eu manylion:

1. TACT
2. Y Coleg Nyrsio Brenhinol
3. TGP Cymru
4. Grŵp Maethu Cenedlaethol
5. Gofal Cymdeithasol Cymru
6. NYAS Cymru a TGP Cymru (Tystiolaeth ar y Cyd)
7. Revolution Consulting Ltd
8. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
9. Nationwide Association of Fostering Providers
10. Cyngor Sir Gwynedd
11. Llais Cymru
12. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
13. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
14. Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
15. Cyngor Sir y Fflint
16. Gweithredu dros Blant
17. Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ymateb ar y cyd gyda Chonsortiwm Comisiynu Plant Cymru, Maethu Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru).

Gwrthododd deg ymatebydd roi caniatâd i ni rannu eu manylion.